Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Cywion Bach

Yr Hen Ysgol
Idole
Carmarthen
SA32 8DG

Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

Date_Last_Inspection_Completed_Donot_Delete

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Graddau	Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu
Rhagorol	Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Meithrinfa Cywion Bach ym mis Tachwedd 2018 ac mae wedi'i leoli yn yr hen ysgol yng Nghwmffrwd, Caerfyrddin. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal ddydd llawn ar gyfer uchafswm o 41 o blant rhwng tri mis a 12 blwydd oedd. Mae'r feithrinfa ar agor rhwng 6.30yb a 6.30yh o ddydd Llun tan dydd Gwener. Yr unigolyn cyfrifol ar ran y cwmni, Cywion Bach cyf yw Heather Thomas a Ceinwen Thomas yw'r person â gofal. Darperir gofal yn y Gymraeg.

Crynodeb o'n canfyddiadau

Thema	Barn
Lles	Rhagorol
Gofal a Datblygiad	Rhagorol
Yr amgylchedd	Rhagorol
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Rhagorol

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae Meithrinfa Ddydd Cywion Bach yn darparu amgylchedd cynnes ac ansawdd uchel iawn ar gyfer y plant, sy'n cael eu cefnogi yn fendigedig i dyfu, datblygu a chael hwyl yn chwarae tu fewn a thu allan. Mae gan y plant amrediad da o deganau ac adnoddau sy'n hawdd iddynt eu cyrraedd. Mae gan y plant lais hynod o gryf ac maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn hyderus iawn ac yn dod yn annibynnol tu hwnt. Mae'r plant yn gwneud cynnydd da iawn a chânt eu hannog i ddatblygu mewn modd holistig. Diwellir anghenion unigol y plant gan grŵp o staff sy'n ofalgar a sylwgar. Mae'r arweinwyr wedi datblygu systemau a gweithdrefnau rhagorol i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei gynnal yn rhwydd ac i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ac yn rhagori ar y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n drwyadl iawn gydag ardaloedd chwarae dychmygus a chreadigol dros ben a lle diogel ac addas i blant fwynhau ac ymlacio ynddo.

2. Gwelliannau

Dim

3. Gofynion ac argymhellion

Dim

1. Lles Rhagorol

Crynodeb

Mae'r plant yn hapus iawn ac mae'r bwrlwm a'r chwerthin iach yn adlewyrchu eu mwynhad amlwg wrth iddynt ymgymryd yn yr ystod dda o weithgareddau a phrofiadau cyffrous. Maent wedi ymgartrefu yn y gwasanaeth ac wedi ffurfio cydberthnasau cadarnhaol â'r plant eraill a'r aelodau staff. Mae gan y plant lais cryf iawn ac maent yn gallu dilyn eu diddordebau yn hyderus. Mae'r plant yn gwneud cynnydd da ac yn mwynhau amrywiaeth arbennig o brofiadau chwarae a dysgu cynhyrfus a dychmygus..

Ein canfyddiadau

Mae'r plant i gyd yn llwyr fwynhau'r cyfleoedd diddorol ac ysgogol dan do ac yn yr awyr agored gydag awch. Maent yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad llwyr, fel pan yn chwilio am deganau anifeiliaid yn yr ysgol goedwig. Maent yn cael hwyl anghyffredin yn yr ysgol goedwig yn chwilio am yr ieir, coginio yn y gegin fwd a dringo cerrig mawr. Mae'r plant yn cael rhyddid i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel. Maent yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu sgiliau drwy brofiadau ysbrydoledig newydd fel cynnau tan, cerdded yn y nant, dringo coed, creu ffau, llifio pren a defnyddio morthwyl. Maent yn defnyddio eu dychymyg i greu cwrs gwrthrychau tu allan ac yn ymhyfrydu wrth ofalu am yr ieir ac anifeiliaid eraill a bwydo'r defaid a'r gafr. Maent yn casglu a chyfri wyau o'r sied ac yn gyfarwydd iawn wrth ddal yr ieir yn ofalus. Profiadau gwerthfawr iawn i'r plant.

Mae'r plant yn siarad neu yn mynegi eu hunain yn eithriadol o dda am eu bod yn hyderus y byddant yn cael ymateb positif wrth y staff. Er enghraifft, cafodd plentyn ifanc ei gwpan dŵr yn ddi-ffws ar ôl iddo ddefnyddio synau a' phwyntio bys. Mae'r plant yn cael cyfleoedd arbennig i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ar yr hyn sy'n effeithio arnynt, er enghraifft ble i chwarae, a gyda pha aelod o staff maent eisiau bod yn agos atynt. Gweithredir ar ddymuniadau'r plant i benderfynu ar eu gweithwyr allweddol.

Mae'r plant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn foesgar ar y cyfan heb orfod cael eu hannog gan y staff. Mae nifer bach o'r plant yn cael eu hatgoffa i fod yn garedig ac i beidio mynd â theganau ac yn ymateb yn gadarnhaol. Maent yn gyfarwydd gydag arferion a rheolau y gwasanaeth. Er enghraifft ar ôl newid cewyn, maent yn aros yn amyneddgar ger y drws, tan bod staff yn barod i'w hebrwng nhw nôl. . Mae teimladau, hoff a chas bethau y plant yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n fawr am fod ganddynt gyswllt agos iawn gyda'r staff. Mae'r plant sydd yn gwrthod pryd o fwyd penodol yn cael cynnig rhywbeth aralli fwyta. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant ac oedolion yn gyson a charedig. Mae gan y plant berthynas gofalgar a chariadus iawn gyda'u gweithwyr allweddol. Mae plant yn dechrau dangos empathi tuag at ei gilydd. Er enghraifft, ar ôl i un plentyn fwrw plentyn arall gyda'i

chot yn ddamweiniol ymddiheurodd yn syth gan ofyn yn naturiol os oedd hi'n iawn cyn rhoi cwtsh iddi.

2. Gofal a Datblygiad Rhagorol

Crynodeb

Mae'r staff yn hollol ymwybodol o anghenion unigol y plant. Maent yn cydweithio'n ddiwyd ac yn effeithiol iawn i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae perthynas hyfryd iawn rhwng y staff a'r plant. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoffterau. Mae'r staff yn rheoli rhyngweithiau yn eithriadol o dda ac yn unol â pholisi ymddygiad y lleoliad.

Ein canfyddiadau

Mae perthynas agos iawn rhwng y staff a'r plant. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sydd yn dewis peidio ymgymryd â thasgau penodol trwy adael iddynt ddewis eu gweithgareddau eu hunain. Mae'r staff yn cynllunio'n llwyddiannus iawn ar gyfer anghenion plant unigol. Maent yn caniatáu i'r plant wneud dewisiadau eu hunain ac yn eu hannog i ymgeisio a gwneud eu gorau wrth ymchwilio. Maent yn cyfathrebu'n hynod effeithiol ar lefel y plentyn gan annog y plant i arwain y chwarae cyn ymyrryd gyda chwestiynau pwrpasol i ddatblygu eu dealltwriaeth ymhellach. Mae bron pob aelod o staff yn rhoi clod i'r plant trwy ddathlu eu hymdrechion yn frwdfrydig a diffuant, gan ddweud 'Waw, da iawn ti am helpu', a rhoi pump uchel iddynt am dacluso . Mae'r staff yn ofalgar ac annwyl iawn. Er enghraifft, pan nad oedd plant eisiau cael eu cewyn wedi newid, llwyddodd i'w hymlacio drwy ganu yn annwyl iddynt.

Mae staff yn darparu cefnogaeth eithriadol o drylwyr i blant er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu dealltwriaeth o'u hemosiynau. Maent yn defnyddio amser cylch a storïau yn hynod lwyddiannus er mwyn trafod teimladau. Enghraifft dda o hyn yw siarad am sut mae'r anifeiliaid yn y stori yn teimlo, a sut gall eu ffrindiau eu helpu i deimlo'n well. Mae staff yn cynllunio ystod eang o weithgareddau a phrofiadau gwerthfawr i sicrhau bod pob plentyn yn datblygu'n gyflawn. Mae'r staff yn gwneud defnydd gwych o storïau personol a moesol sy'n hybu ymwybyddiaeth y plant o deimladau pobl eraill, er enghraifft wrth wrando ar storïau am garedigrwydd a chyfeillgarwch. Yn ogystal, maent yn cynnig cyfleoedd ardderchog sydd yn datblygu medrau annibynnol y plant yn llwyddiannus gan gynnwys golchi dwylo, gwisgo cot a bwyta yn annibynnol. Mae'r staff yn hollol gyson a theg wrth reoli ymddygiad ac yn modelu ymddygiadau cadarnhaol yn llwyddiannus iawn.

Mae'r staff yn cydweithio'n eithriadol o agos gyda'r rhieni a gwarchodwyr i ddiwallu anghenion y plant yn hynod lwyddiannus gan ymateb yn gadarnhaol i'w hanghenion meddygol, emosiynol, cymdeithasol a datblygiadol. O ganlyniad, mae bron pob plentyn yn datblygu'n unigolion medrus, cyflawn. Mae'r staff yn adrodd yn ôl ar lafar i rhieni y plant

hŷn. Maent yn cofnodi gweithgarwch, cynnydd, gofynion ac anghenion y plant ifancach yn effeithiol mewn cofnod manwl dyddiol i rhieni.

Mae staff yn dilyn gweithdrefnau trylwyr iawn, ac yn defnyddio'u gwybodaeth o hyfforddiant perthnasol yn llwyddiannus i sicrhau iechyd a diogelwch plant. Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach yn effeithiol trwy ddarparu byrbrydau iachus ac amrywiaeth blasus o giniawau maethlon. Mae'r staff yn nodi ac yn rheoli risgiau yn rhagweithiol ac effeithiol gan gwblhau rhestrau gwirio manwl am yr amgylchedd. Maent yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn cadw cofnodion manwl iawn o bob digwyddiad a damwain.. Mae'r staff yn gweithredu arferion glanhau a hylendid cadarn a rhagorol yn gyson. Er enghraifft, mae'r plant yn ogystal â'r staff yn golchi'u dwylo pan fo'n briodol. ac mae staff yn diheintio ardaloedd chwarae y plant yn aml.

3. Yr amgylchedd Rhagorol

Crynodeb

Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd cyfoethog, diogel a thu hwnt o safonol. Maent yn darparu ystod eang o adnoddau diddorol, gwrthrychau naturiol. a dewis cyfoethog o weithgareddau sy'n datblygu medrau corfforol ac amlsynhwyraidd. Mae adnoddau'r lleoliad yn rhoi cyfleoedd arbennig o lwyddiannus i blant ddatblygu dealltwriaeth o anghenion bobl yn y gymuned ehangach.

Ein canfyddiadau

Mae'r ardaloedd dysgu a chwarae tu fewn a thu allan yn tanio dychymyg y plant yn arbennig o dda, ac yn eu galluogi i gymryd risgiau positif. Er enghraifft, dringo mowndiau cerrig, cropian yn y nant, tostio malws melys ger y tân a thrin teclynnau torri coed fel llif a morthwyl. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnig cyfleoedd ardderchog i blant ddatblygu medrau datrys problemau yn ogystal â medrau iaith, mathemateg a modur mân a mawr. Mae'r ardaloedd allanol yn hynod o ddiddorol ac yn gynhyrfus ac y mae'r arweinwyr yn annog chwilfrydedd y plant i fynd i chwarae a dysgu.

Mae arweinwyr yn darparu ystod eang o adnoddau diddorol, gwrthrychau naturiol a geirfa sydd yn berthnasol i'w thema cyfredol. Mae gan y lleoliad arddangosfeydd hynod liwgar a rhyngweithiol sy'n dathlu gwaith y plant yn llwyddiannus. Mae labeli a lluniau effeithiol iawn a'r adnoddau sydd ar lefel y plant ym mhob ardal yn bwrpasol ac yn sbarduno dychymyg y plant yn effeithlon iawn. Mae'r ddarpariaeth barhaus ar gyfer cyfoethogi'r chwarae a'r dysgu o fewn yr ardaloedd mewnol yn arbennig o effeithiol. Er enghraifft, ardal chwarae rôl sydd yn gaffi, dillad gwisgo lan a byd bach gydag anifeiliaid y fferm, sydd yng nghlwm i thema y tymor.

Mae'r amgylchedd yn hybu datblygiad cymdeithasol yn arbennig oherwydd bod plant yn gallu dod at ei gilydd yn ystod adegau bwyd i gyd-eistedd ar gelfi addas i'w hoedran. Mae arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu'n llwyddiannus yn ystod amseroedd newid cewynnau a mynd i'r tŷ bach. Yn ogystal, mae darpariaeth dda ar gyfer amseroedd cysgu a gorffwys ymhob ardal o'r feithrinfa.

Mae adnoddau'r lleoliad yn rhoi cyfleoedd arbennig o lwyddiannus i blant ddatblygu dealltwriaeth o anghenion bobl yn y gymuned ehangach. Er enghraifft, mae'r plant yn datblygu ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu llawer o bobl mewn cymdeithas trwy ymdrin ag offer chwarae rôl fel cadair olwyn a ffrâm gerdded. Darperir ystod arbennig o adnoddau sy'n hybu dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas yn llwyddiannus iawn ac mae ymarferwyr yn annog y plant i feddwl am, a chymharu, traddodiadau Cymru gyda thraddodiadau diwylliannau a chrefyddol eraill fel Diwali.

4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth Rhagorol

Crynodeb

Mae'r arweinydd wedi sefydlu, rhannu a gwireddu gweledigaeth hynod o glir am ofal plant o safon uchel gyda phawb sy'n rhan o'r lleoliad. Mae wedi creu ethos cadarnhaol a hynod gynhaliol fel bod plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac am roi o'u gorau. Mae'r arweinydd yn arwain trwy esiampl ac adeiladu tîm hynod effeithiol sy'n darparu awyrgylch ddysgu a chwarae arbennig o ysgogol a chyffrous i'r plant ddatblygu a blodeuo ynddo.

Ein canfyddiadau

Mae ethos trawiadol a hynod gartrefol yn y lleoliad sy'n cael ei hyrwyddo yn effeithiol trwy gydol pob agwedd o fywyd a gwaith y feithrinfa. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth gwbl glir ar gyfer darpariaeth o'r safon uchaf lle mae'r plant yn ffynnu mewn awyrgylch hapus a theuluol. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn hynod effeithiol gyda'r ymarferwyr a chyda rhieni. Maent yn arweinyddion ysbrydolgar ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o'i hunain a'r staff. Maent yn cefnogi eu staff yn ardderchog, ac yn eu cynnwys yn y broses barhaus o ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac yn cyfrannu'n rhagorol at ddatblygu hyder a lles y plant. Maent yn cydweithio'n ardderchog fel tîm, ac mae arweinwyr yn gwneud y gorau o'u gwahanol fedrau er mwyn datblygu'r ddarpariaeth. Mae gan y rhieni feddwl mawr o'r holl staff, ac maent yn gwerthfawrogi'r gofal unigol ac arbenigol sydd yn cael ei ddarparu ar gyfer eu plant.

Mae'r datganiad o ddiben yn ddogfen gynhwysfawr sy'n amlinellu'r gwasanaeth a gynhigir yn hynod effeithiol. Mae'r arweinwyr yn arwain trwy esiampl, ac yn craffu ar berfformiad yr holl staff ym mhob agwedd o'u gwaith. Mae'r rhieni a'r staff yn cyfrannu'n rheolaidd at weithdrefnau gwerthuso'r lleoliad. Maent yn derbyn holiaduron pwrpasol yn gyson, ac mae ganddynt hyder fod yr arweinwyr a'r tîm yn gwrando ar eu barn. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu'n llwyddiannus gan y polisi drws agored, a'r cyfleoedd sydd ar gael i rieni rannu adborth yn anffurfiol. Mae'r arweinwyr a'r tîm yn craffu'n barhaus ar eu dulliau gweithio, gan wneud addasiadau bwriadus.

Mae'r arweinydd yn rheoli a chefnogi staff yn rhagorol. Mae'n gweithredu trefn rheoli perfformiad a gwerthuso yn gyson a theg, gan ymateb i anghenion hyfforddiant staff yn arbennig o effeithiol. Mae yna systemau cadarn yn ei le pan yn recriwtio staff newydd. Mae cyfleoedd niferus i ymarferwyr fynychu hyfforddiant.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus iawn gyda nifer fawr o bartneriaid er mwyn hybu lles a datblygiad medrau'r plant. Maent yn gwneud defnydd hynod effeithiol o adnoddau'r ardal leol a thu hwnt, er mwyn cyfoethogi'r profiadau dysgu. Er enghraifft, maent yn mynd a'r plant i ymweld â phreswylwyr cartref gofal lleol, ac mae'r

preswylwyr yn dod i ymweld a'r feithrinfa yn eu tro. Maent yn mynd â'r plant i'r gerddi lleol, fferm, parc a'r traeth. Mae'r arweinydd wedi ennill chymhwyster dysgu yn yr ysgol goedwig ac yn rhannu cyfoeth o brofiadau gydag arweinyddion gwasanaethau eraill, ysgolion lleol a darlithwyr yn y maes blynyddoedd cynnar.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol

Dim

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu arferol;

- cynhaliodd un arolygydd ddau ymweliad â'r gwasanaeth ar 30 Ionawr a 3 Chwefror 2020;
- gwnaethom archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau yn ystod yr arolygiad;
- gwnaethom arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio dull y fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI 2) yn ystod y ddau ymweliad, i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan staff;
- gwnaethom edrych ar ddatganiad hunanasesu'r gwasanaeth;
- gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol, y person â gofal, y staff, y plant a'r rhieni a
- treuliwyd amser yn yr ysgol goedwig.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	**Gofal Dydd Plant** **Gofal Dydd Llawn**
Unigolyn Cyfrifol	**Heather Thomas**
Person â Gofal	**Ceinwen Thomas**
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	**41**
Ystod oedran y plant	**3 mis i 12 mlwydd oed**
Oriau agor	**Dydd Llun i ddydd Gwener 6.30 yn tan 6.30yh**
Prif iaith y gwasanaeth	**Cymraeg**
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	**Arolwg cyntaf**
Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn	**30 Ionawr a 3 Chwefror 2020**
Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	**Nac ydy**
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed?	**Nac ydy**
Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol Y Gymraeg?	**Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, nodi a diwallu anghenion pobl sydd yn, neu a fydd o bosibl, yn ei ddefnyddio mewn perthynas â'r Gymraeg a'i diwylliant.**
Gwybodaeth ychwanegol:	